**CYPE(6)-21-23 – Papur i'w nodi 4**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

6 Gorffennaf 2023

**Penodiadau gweinidogol**

Annwyl Brif Weinidog,

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn penodi'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, a hynny ar gyfer swydd Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd. Nid oedd hon yn un o'r penodiadau cyhoeddus a restrir yn y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Fodd bynnag, cynhaliwyd gwrandawiad cyn penodi yn dilyn ymrwymiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ystod gwaith craffu Cyfnod 2 a 3 o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Roeddem yn gwerthfawrogi ymrwymiadau'r Gweinidog a'r cyfle i ni fod yn rhan o'r broses benodi hon.

Yn fwy cyffredinol, ers dechrau'r Senedd hon rydym wedi tanlinellu'n gyson ein pryderon ynghylch rôl gyfyngedig pwyllgorau'r Senedd yn y broses penodiadau cyhoeddus, a chyfyngiadau'r gwrandawiadau cyn penodi yn benodol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn ein gohebiaeth yn ddiweddar â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Rydym yn ysgrifennu i ofyn am ragor o wybodaeth am benodiadau gweinidogol. Roedd hwn yn benodiad gweinidogol nad yw pwyllgorau'r Senedd fel arfer yn rhan ohono. Credwn fod ein rhan ni yn y broses benodi wedi helpu i sicrhau bod rhagor o wybodaeth am y broses recriwtio ar gael i'r cyhoedd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y rôl hon oherwydd y penderfyniad i benodi'n uniongyrchol ar ôl i'r broses recriwtio cyhoeddus fethu.

O ganlyniad, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd mewn perthynas â phenodiadau gweinidogol. Byddem felly, yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am y dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd ar gyfer penodiadau o'r fath. A fyddech cystal â rhoi cyfanswm y penodiadau gweinidogol a wnaed, gan nodi'r canlynol:

- y portffolio gweinidogol;

- a gynhaliwyd proses recriwtio agored mewn perthynas â'r penodiad?
- a oedd y broses recriwtio agored yn llwyddiannus (os yw’n berthnasol)?
- a oedd y penodiad yn benodiad uniongyrchol?
- y rheswm pam roedd y penodiad yn benodiad uniongyrchol (os yw’n berthnasol).

A allwch chi hefyd roi manylion yr holl swyddi y gwnaed penodiad uniongyrchol iddynt, ni waeth pam y gwnaed y penodiad uniongyrchol. Hoffem y data ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Mark Isherwood, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o ystyried ymchwiliad presennol y Pwyllgor hwnnw i benodiadau cyhoeddus.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 14 Medi 2023.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Cc: Mark Isherwood, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.